Fishguard and West Wales International Music Festival
Gŵyl Gerdd Ryngwladol Abergwaun a Gorllewin Cymru

**Cylchlythyr Rhif 4**



Annwyl Gyfeillion

Hoffwn ddymuno Dydd Gŵyl Dewi Hapus i chi gyd!

Hoffwn hefyd achub ar y cyfle i'ch hysbysu o'r newyddion diweddara efo'r Ŵyl eleni. Yn wreiddiol yr oeddem wedi gobeithio symud rhaglen 2020 yn ei gyfanrwydd i ddyddiadau cyffelyb yn 2021 ond erbyn hyn ymddengys na fydd hyn yn bosib gan fod cymaint o ansicrwydd am gynnal perfformiadau o gerddoriaeth fyw ym mis Gorfennaf. Ein penderfyniad felly yw cynnal rhai cyngherddau nes ymlaen ym mis Awst a dechrau Medi gan recordio rhain a'u darlledu ar-lein ychydig yn ddiweddarach. Pe baem yn cael caniatad i groesawu cynulleidfaoedd yno bydd tocynnau ar gael yn y ffordd arferol. Er fod y broses o recordio yn ddrud gallwn yn hawdd ddychmygu daw hyn yn ran anatod o'n Gŵyl yn y dyfodol gan y bydd yn ein galluogi i gyrraedd llawer o bobol na fedrant ddod fel arfer. Yr ydym yn sicr o ansawdd recordio o safon uchel ond rwyn siwr y cytunwch efo fi na all unrhywbeth ddisodli'r profiad o fynychu cyngerdd fyw.

Yn ogystal â'r uchod bwriedir cynnal perfformiadau gan Gerddorfa WNO.

Mawr obeithiaf y cawn gyfarfod er mwyn cael gwrando ar gerddoriaeth rhagorol nes mlaen yn y flwyddyn a gobeithiaf na fydd y newid amser yn peru gormod o anghyfleustra.

Gellir dod o hyd i fanylion y digwyddiadau ar [www.fishguardmusicfestival.com](http://www.fishguardmusicfestival.com) .

Gyda diolch am eich cyd-weithrediad

Cofion cynnes iawn

Gillian

Gillian Green MBE (Cyfarwyddwr Artistig) Gŵyl Gerdd Ryngwladol Abergwaun a Gorllewin Cymru